# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 13 Ebrill, 2026.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); Y Cynghorwyr M.J. Hooper a J. Protheroe; ac M. Evans (Aelod Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

## 794 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 795 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan N. Ireland (Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg) a'r Cynghorwyr G. Ball, B. Dodd ac E. Goodjohn.

## 796 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2026 fel cofnod cywir.

## 797 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 798 ARCHWILIO CYMRU: CYNLLUN ARCHWILIO CYNGOR BRO MORGANWG 2026 (CAC) –

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Pwyllgor S-J. Byrne ac M. Jones o Archwilio Cymru.

Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn amlinellu Cynllun Archwilio Cymru 2026 ar gyfer Cyngor Bro Morganwg.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a nodi'r Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer 2026 a chyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w goruchwylio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M Hooper at dudalen 12 a Chydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru a gofynnodd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chymhlethdodau trafodion ar gyfer cwblhau eu Datganiad Cyfrifon. Mewn ymateb, dywedodd M Jones fod y cymhlethdodau yn ymwneud â'r amserlenni cyfunol a oedd yn cynnwys llawer o rifau amrywiol a fyddai'n cymryd cryn dipyn o amser i'w paratoi a'u harchwilio. Ychwanegwyd, o ran oedi i gwblhau eu cyfrifon, bod hynny'n gwella, gyda ffigurau drafft yn cael eu darparu yn gynharach, gyda'r hanes o oedi yn un o'r cymhlethdodau hynny.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper fod pryder ynglŷn â'r Cydbwyllgor Corfforaethol ymhlith y cyhoedd ynglŷn â sut roedd arian cyhoeddus yn cael ei wario, ac roedd yn teimlo bod mwy y gallai'r Cydbwyllgor ei wneud i helpu pobl i ddeall ble roedd arian yn cael ei ddyrannu.

Holodd M. Evans am y gwaith maes a gynlluniwyd ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi i gwblhau'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ac o ystyried y tymor gwyliau. Gofynnodd M Evans hefyd pa feysydd fyddai'n cael eu cynnwys yn yr adolygiad i seiberddiogelwch. Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, dywedodd M Jones y byddai cwblhau'r archwiliad erbyn mis Medi yn her ac roedd enghreifftiau o archwiliadau ariannol cymhleth tebyg, er enghraifft gyda'r sector iechyd, yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni. O ran yr ail ymholiad, dywedodd S J Byrne, oherwydd ei sensitifrwydd, y byddai cwmpas yr adolygiad seiberddiogelwch yn cael ei rannu ag Aelodau'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd, G. Chapman, ei bod yn bwysig mewn perthynas â Datganiad Cyfrifon y Cyngor fod gan Archwilio Cymru ddigon o adnoddau i sicrhau bod y cyfrifon wedi'u cwblhau erbyn y dyddiadau cau o ran eu cyflwyno a'u cymeradwyo, a bod angen i’r Cyngor sicrhau bod yr adnodd staff ar gael i ymateb i unrhyw ymholiadau mewn modd digonol. Yn ogystal, cyfeiriodd y Cadeirydd at Gydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru a holodd a oedd yn ofyniad arnynt, fel Cyngor Bro Morgannwg, i gyflwyno eu cyfrifon i'w harchwilio erbyn 30 Mehefin, ac i sicrhau eu bod wedi'u cymeradwyo erbyn 30 Medi. Mewn ymateb, dywedodd M Jones efallai nad yw’r Cydbwyllgor Corfforaethol wedi'i glymu'n gyfreithiol i'r un dyddiadau cau o ran archwilio eu cyfrifon, ond yr hyn yr oedd yn rhaid i gorff sector cyhoeddus ei wneud oedd rhoi ar eu gwefan, erbyn 31 Mai, a oedd eu cyfrifon wedi'u cymeradwyo erbyn y dyddiad hwnnw.

Gofynnodd y Cadeirydd hefyd a fyddai Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad adolygu a luniwyd gan Deloitte yn dilyn yr adolygiad barnwrol ar gyfer y broses dendro ar gyfer dymchwel hen Orsaf Bŵer Aberddawan fel rhan o'r archwiliad o'u cyfrifon. Roedd ymholiad terfynol y Cadeirydd yn ymwneud â'r broses o bennu cyllideb ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforaethol, ac a fyddai'n rhoi digon o amser neu wybodaeth glir i'r Awdurdodau cyfansoddol i graffu'n briodol ar y gyllideb, gyda diffyg sicrwydd swyddogion statudol posib. Dywedodd y Cadeirydd fod achos cryf dros adolygu sut mae'r Cydbwyllgor Corfforaethol yn pennu ac yn adrodd ar ei gyllideb.

Cadarnhaodd swyddogion Archwilio Cymru y byddai ymatebion i ddau ymholiad y Cadeirydd ynglŷn â'r adroddiad adolygu barnwrol a'r broses o bennu cyllideb yn cael eu hanfon at y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu i'w cylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi Cynllun Archwilio Cymru 2026.

(2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w oruchwylio.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn galluogi'r Cabinet i oruchwylio'r rhaglen archwilio allanol.

799 SIARTER Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL 2026-27 (PGAMR) –

Sefydlodd Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (GAMR) safle gweithgaredd archwilio mewnol o fewn pob Cyngor ynghyd â llinellau adrodd. Roedd yn ddogfen ffurfiol a ddiffiniodd bwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgareddau archwilio mewnol.

Roedd Pennaeth Archwilio Mewnol yn gyfrifol am adolygu'r Siarter a'i chyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob Cyngor yn flynyddol i'w hadolygu a'i chymeradwyo yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB).

Un o'r rolau allweddol a ddangosodd oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

Adolygwyd Siarter GAMR ar gyfer 2026-27 i sicrhau ei bod yn adlewyrchu gofynion y SAMB a'i bod yn parhau i fod yn berthnasol i bob partner sy'n ymwneud â'r GAMR.

Daeth y SAMB i rym yn y sector cyhoeddus yn y DU o 1af Ebrill, 2025; fe wnaethant ddisodli Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Ategwyd y SAMB gan Nodyn Cymhwyso a Chod Llywodraethu Archwilio Mewnol CIPFA.

Mewn ymateb i ymholiad a bostiwyd cyn y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd yn ymwneud ag eglurder ynghylch annibyniaeth adolygiad asesu cymheiriaid, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, adran 8.4 sy'n ymwneud ag asesu ansawdd, yn amlinellu nad oedd asesiadau cymheiriaid cilyddol rhwng dau sefydliad yn cael eu hystyried yn annibynnol. Fodd bynnag, gellir ystyried asesiadau sy'n cael eu cylchdroi rhwng tri

neu fwy o sefydliadau cymheiriaid o fewn yr un diwydiant, cymdeithas ranbarthol neu grwpiau cysylltiedig eraill yn annibynnol. Roedd awgrym y byddai asesiad gan gymheiriaid drwy Grŵp Prif Archwilwyr Cymru yn ddigon annibynnol i fodloni'r Safonau. Roedd gweithgor Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi'i sefydlu, a arweiniwyd gan Gadeirydd Prif Archwilwyr Cymru, a byddent yn penderfynu pa gymheiriaid fyddai'n asesu pob un o dimau archwilio'r Awdurdodau.

PENDERFYNWYD – Y dylid Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2026-27 fel y'i hatodir yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

800 TRACIO PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (PGAMR) –

Roedd cofnod Olrhain Penderfyniadau wedi'i lunio i gynorthwyo'r Pwyllgor i olrhain y penderfyniadau a wnaed a'r camau gweithredu a ofynnwyd amdanynt wrth arfer ei swyddogaethau.

Roedd cofnod o'r penderfyniadau/penderfyniadau ffurfiol heb eu cymryd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a wnaed yn ystod blwyddyn ddinesig 2024/25 ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

Roedd Atodiad B yn gofnod o benderfyniadau/penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfredol, gan gynnwys hefyd gamau gweithredu anffurfiol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor yn ystod cyfarfodydd. Roedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd pob penderfyniad a cham gweithredu a godwyd.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor nodi cynnwys Atodiadau A a B a gwneud sylwadau, yn ôl yr angen.

Argymhellwyd y dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd am bob penderfyniad a/neu benderfyniad a cham gweithredu heb eu cymryd.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar Gydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CBCDDdC), a bod angen gwahodd Swyddog Adran 151 i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am lunio eu Datganiad Cyfrifon. Ychwanegodd y Cynghorydd M Hooper y byddai'n ddoeth gwahodd Prif Weithredwr CBCDDdC ar yr un pryd.

Argymhellodd y Cadeirydd hefyd y dylid gwneud cais ffurfiol i'r CBCDDdC i ddarparu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fersiwn heb ei golygu o'r adroddiad adolygu a luniwyd yn dilyn yr achos ymgyfreitha i ddyfarnu'r tendr ar gyfer hen safle Gorsaf Bŵer Aberddawan.

Yn ogystal, awgrymodd y Cadeirydd y dylai ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ran y Pwyllgor, gan fynegi pryder ynghylch y taliad o £6.5 miliwn yn dilyn yr adolygiad barnwrol, a gofyn pa gamau y byddai Archwilio Cymru yn eu cymryd i roi sicrwydd ynghylch y cyllid cyhoeddus a gollwyd.

Ar ôl cytuno i'r argymhellion, fe'i

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid cynnwys y cofnod Olrhain Penderfyniadau a atodwyd i'r adroddiad yn cael ei nodi.

(2) Y dylid, mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, yn cael gwahodd eu Prif Weithredwr a'u Swyddog Adran 151 i roi trosolwg diweddaru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â chynnydd cynhyrchu eu Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

(3) Y dylid cais ffurfiol yn cael ei wneud i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru i ddarparu fersiwn heb ei golygu o'r adroddiad adolygu a gynhyrchwyd yn dilyn yr achos cyfreithiol i ddyfarnu'r tendr ar gyfer hen safle Gorsaf Bŵer Aberddawan i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(4) Y dylid Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ran y Pwyllgor, yn mynegi pryder ynghylch y taliad o £6.5 miliwn yn dilyn yr adolygiad barnwrol ac yn gofyn pa gamau y byddai Archwilio Cymru yn eu cymryd i roi sicrwydd ynghylch y cyllid cyhoeddus a gollwyd.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â chynhyrchu'r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru.

(3) Caniatáu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried canfyddiadau'r adroddiad dan sylw, gan fod gan yr achos oblygiadau ariannol i Gyngor Bro Morganwg.

(4) Mynegi pryder ynghylch yr effaith yn dilyn yr adolygiad barnwrol ac egluro'r camau y dylai Archwilio Cymru eu cymryd i roi sicrwydd i'r cyhoedd.